Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Aberpennar
# New Road
# Aberpennar
# CF45 4DG

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg 11-18 yw Ysgol Gyfun Aberpennar, a gynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae 935 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 135 ohonynt yn y chweched dosbarth. Mae'n gwasanaethu tref fechan Aberpennar a'r pentrefi cyfagos. Mae'r ardal dan anfantais yn economaidd ac yn gymdeithasol, gyda lleiafrif bach yn unig o ddisgyblion yn dod o gefndiroedd breintiedig. Mae gan ryw 34% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, o gymharu ag 17.4% yn genedlaethol. Mae saith deg pump y cant o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae tua hanner y disgyblion yn cyrraedd Blwyddyn 7 ag oedrannau darllen o leiaf chwe mis islaw eu hoedran cronolegol. Mae tri deg pump y cant o'r disgyblion yn cyrraedd heb oedran darllen swyddogaethol. Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yr ysgol yn mudo oherwydd y nifer uchel o lety ar rent. Ychydig iawn o ddisgyblion y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae'r ysgol yn aelod o gonsortiwm Cwm Cynon ar gyfer addysg ôl-16. Mae myfyrwyr yn mynychu cyrsiau yn Ysgol Gyfun Aberpennar, ysgolion eraill a'r coleg lleol.

Penodwyd y pennaeth presennol yn Ebrill 2010 a'r dirprwy bennaeth presennol ym Medi 2011. Mae tri phennaeth cynorthwyol yn yr ysgol hefyd, a nhw gyda'i gilydd yw'r uwch dîm rheoli.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Aberpennar yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,212 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Rhondda Cynon Taf yw £4,511 a'r isafswm yw £3,634. Mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn chweched o'r 19 ysgol uwchradd yn Rhondda Cynon Taf o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- y gwelliant mewn perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf, sydd yn awr yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg;
- mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda, ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn effeithiol;
- mae disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol â medrau darllen gwan yn gwneud cynnydd da;
- ansawdd da'r addysgu gan fwyafrif y staff;
- ymddygiad y disgyblion a'u hagweddau cadarnhaol at ddysgu;
- lefel uchel y gofal a'r cymorth ar gyfer pob disgybl; a
- threfniant partneriaeth effeithiol sy'n cefnogi'r disgyblion mwyaf bregus yn llwyddiannus iawn.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol ar y cyfan oherwydd:

- mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd;
- nid yw bechgyn gallu canolig a disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill mewn ysgolion tebyg;
- nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn datblygu eu medrau ysgrifennu;
- mae cyfraddau presenoldeb yn is na'r rhai mewn ysgolion tebyg;
- mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 yn rhy isel; ac
- nid yw disgwyliadau athrawon o gynnydd disgyblion yn ddigon uchel mewn lleiafrif o wersi.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol ac fe gaiff gefnogaeth dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth;
- bod tuedd gadarnhaol o wella mewn cyflawniad a phresenoldeb;
- bod systemau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff;
- bod ystod addas o weithdrefnau ar gyfer monitro ac arfarnu;
- bod rheolwyr yn gwneud defnydd da o ddata i arfarnu perfformiad;
- bod y cynllun gwella ysgol yn cynnwys targedau heriol; a
- bod systemau effeithiol ar gyfer monitro'r gyllideb i sicrhau gwariant doeth ar gyfer y dyfodol.

## Argymhellion

Mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Gyfun Aberpennar:

A1 wella cyflawniad bechgyn gallu canolig a disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim;

A2 gwella medrau ysgrifennu disgyblion;

A3 cynyddu cyfraddau presenoldeb;

A4 gwella safonau mewn Cymraeg ail iaith; a

A5 cynyddu her yr addysgu fel ei bod yn cyfateb i'r hyn a geir yn y gwersi gorau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ac mae yn awr uwchlaw cyfartaledd ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw perfformiad mewn ysgrifennu ac ar y lefelau uwch mewn mathemateg mor gryf â pherfformiad mewn ysgolion tebyg.

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn gyffredinol uwch na pherfformiad y teulu o ysgolion ac uwchlaw disgwyliadau. Mae perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg wedi gwella ar y cyfan dros y pedair blynedd diwethaf ac mae yn y chwarter uchaf yn 2011 o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill cymwysterau mewn medrau hanfodol yng nghyfnod allweddol 3. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n methu ennill cymhwyster cydnabyddedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, ac ychydig iawn o ddisgyblion Blwyddyn 11 a adawodd yr ysgol yn 2011 y dywedir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yn gyffredinol, mae perfformiad yn y chweched dosbarth wedi bod ychydig islaw cyfartaledd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf.

Nid yw bechgyn yn cyflawni cystal â merched yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn enwedig yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Mae'r gwahaniaethau hyn yn ehangach na chyfartaleddau Cymru a'r teulu. Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel ei gilydd, nid yw disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion tebyg o gymharu â chyfartaleddau Cymru neu'r teulu, mewn dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg fel ei gilydd.

Mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn effeithiol mewn mwyafrif o wersi. Mewn lleiafrif o wersi, lle nad oes digon o her, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Yn y gwersi hyn, nid yw disgyblion yn elwa'n ddigonol o ran deall cysyniadau newydd neu'n datblygu eu medrau meddwl, ysgrifennu neu fathemategol yn ddigon da. Weithiau, mae lleiafrif o ddisgyblion yn colli diddordeb yn eu gwaith.

Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion fynegi eu syniadau yn dda ar lafar a phan gânt gyfleoedd, maent yn cynnig esboniadau clir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w hathrawon.

Mae mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn darllen yn rhugl a gallant ddethol gwybodaeth berthnasol o ystod o destunau i ddangos dealltwriaeth glir. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd darllen testunau'n hyderus. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cyrraedd Blwyddyn 7 heb y medrau darllen sy'n galluogi iddynt fanteisio ar y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd sylweddol mewn grwpiau ymyrraeth, ac ychydig iawn ohonynt yn unig sydd heb ddysgu'r medrau hyn erbyn diwedd cyfnod allweddol 3.

Gall mwyafrif o ddisgyblion gynhyrchu gwaith ysgrifenedig cywir ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd a dibenion. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn gwneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol mewn gramadeg neu sillafu. Yn gyffredinol, nid yw medrau ysgrifennu bechgyn wedi'u datblygu cystal â rhai merched.

Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddatblygu eu gwybodaeth am y Gymraeg. Gallant ddefnyddio'r Gymraeg yn gynyddol mewn cyd-destunau heblaw mewn gwersi Cymraeg. Mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae perfformiad uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ac mae wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, cyfran isel iawn sy'n ennill cymhwyster lefel 2 yn y cwrs Cymraeg byr.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn yr ysgol. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw achosion sy'n gysylltiedig â bwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall beth yw bod yn iach ac mae niferoedd cynyddol ohonynt yn dewis pryd iach yn ffreutur 'Caffi MACS' a sefydlwyd yn ddiweddar. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang iawn o weithgareddau corfforol yn ystod amser cinio ac ar ôl yr ysgol, ac mae nifer dda iawn yn eu mynychu.

Mae ymddygiad disgyblion yn y rhan fwyaf o wersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn awyddus i ddysgu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u gwirfodd. Mae presenoldeb wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf. Er hynny, yn 2011, mae'r ysgol yn y trydydd chwarter o ysgolion tebyg ac ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol ac yn cyfrannu'n dda at lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae disgyblion penodol yn elwa ar gymorth targedig gwerthfawr i wella eu hunan-barch a gwella eu lles.

Mae'r Cyngor Ysgol, sy'n cael ei adnabod fel y 'Senedd', yn effeithiol iawn. Cyfrannodd at y broses o benodi uwch aelodau o staff, gwnaeth benderfyniadau am welliannau i'r amgylchedd ysgol, ac mae'n cymryd rhan yn bwrpasol ym mhroses hunanarfarnu'r ysgol. Mae aelodau'n rhoi gwybodaeth werthfawr i'r pennaeth ynglŷn â materion iechyd a diogelwch, ac maent wrthi'n dechrau datblygu eu rôl fel 'ymchwilwyr dysgu' i ddylanwadu ar addysgu a dysgu.

Mae disgyblion yn meddu ar fedrau cymdeithasol a medrau bywyd datblygedig. Maent yn dangos lefel uchel o barch a gofal at ei gilydd, at staff ac at bobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion y medrau i symud ymlaen i'r cam dysgu nesaf.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n bodloni anghenion pob dysgwr. Yn benodol, mae'r cwricwlwm wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y

disgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 2. Yn y chweched dosbarth, mae cydweithio effeithiol â darparwyr eraill yn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu dewis o ystod gynhwysfawr o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu mynychu gan nifer dda o ddisgyblion. Mae lefelau arbennig o uchel o gyfranogi gan ddisgyblion o bob oedran ym mhrosiect 'E3', sef menter sy'n cael ei rhedeg gan yr awdurdod lleol, sy'n cynnig ystod eang o weithgareddau ar ôl yr ysgol.

Mae trefniadau pontio effeithiol ar waith i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau a ddysgwyd ganddynt yn yr ysgol gynradd. Yn sgil cyflwyno cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar gyfer pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 a lleiafrif o ddisgyblion yn y chweched dosbarth, cynigir cyfleoedd ehangach i ddisgyblion o bob gallu.

Mae disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn cael rhaglen bersonol effeithiol iawn yn unol â'u hanghenion unigol. Fodd bynnag, ychydig o adrannau pwnc yn unig sy'n gweithio'n briodol i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd y disgyblion hyn, yn enwedig wrth ysgrifennu mewn gwersi prif ffrwd.

Caiff y dimensiwn Cymreig ei gynnwys yn dda yn y mwyafrif o bynciau, a thrwy ethos a gweithgareddau'r ysgol. Mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg gan ddisgyblion a staff fel ei gilydd yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae mwyafrif y staff a'r disgyblion yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi. Mae cyfleoedd da i ddathlu diwylliant Cymreig yn cynnwys eisteddfodau, cyrsiau preswyl ac mewn cystadlaethau ysgol.

Mae disgyblion yn ennill dealltwriaeth gadarn o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy gysylltiadau rhyngwladol, a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, a phynciau fel astudiaethau crefyddol, gwyddoniaeth a daearyddiaeth. Cynigir darpariaeth briodol i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd.

### Addysgu: Digonol

Yn yr ychydig iawn o wersi rhagorol, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'u disgyblion, maent yn eu sbarduno i feddwl ac arfarnu eu gwaith eu hunain, ac yn eu herio i gyrraedd y lefelau uchaf o ran cyrhaeddiad. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae perthynas waith dda rhwng athrawon a disgyblion. Mae mwyafrif o athrawon yn gosod amcanion dysgu clir ac yn cynllunio eu gwersi'n dda i sicrhau strwythur rhesymegol a graddol. Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o gwestiynau'n fedrus i brocio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion.

Mae gan fwyafrif o athrawon ddisgwyliadau addas o'r hyn y dylai disgyblion ei gyflawni. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel. Yn y gwersi hyn, gosodir tasgau ar gyfer disgyblion nad ydynt yn llwyddo i ennyn eu diddordeb yn llawn, datblygu eu medrau ysgrifennu'n ddigon da na'u herio i wneud digon o gynnydd yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Nid yw lleiafrif o athrawon yn addasu gwaith yn ddigon da i fodloni anghenion disgyblion o bob gallu. O ganlyniad, nid yw disgyblion y mae angen cymorth arnynt yn gwneud cynnydd digonol ac nid yw disgyblion mwy abl yn datblygu eu medrau meddwl a phwnc-penodol ddigon.

Mae bron pob un o'r athrawon yn marcio ac asesu gwaith dysgwyr yn rheolaidd. Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi adborth pwnc-penodol priodol i ddisgyblion sy'n eu helpu i wneud cynnydd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o lyfrau, nid yw'r marcio yn nodi'r meysydd i'w gwella'n glir.

Mae staff yn gwneud defnydd da o system olrhain briodol ar gyfer yr ysgol gyfan i fonitro cynnydd disgyblion, sy'n cynnwys nodi'r rhai sy'n tangyflawni. Mae adroddiadau blynyddol yn rhoi gwybodaeth berthnasol i rieni am gynnydd, ymdrech a chyrhaeddiad eu plant. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r sylwadau'n ddigon penodol ac nid ydynt yn rhoi syniad clir i ddisgyblion ynglŷn â sut i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, ac ar gyfer datblygu a chefnogi iechyd a lles disgyblion, yn effeithiol iawn. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod eang o fentrau hynod effeithiol ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles, sy'n cynnwys diwrnod iechyd a lles Blwyddyn 7, y prosiect iechyd meddwl a ffreutur arloesol yr ysgol, 'Caffi MACS'.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol i wella lles disgyblion ac mae ganddi weithdrefnau da iawn ar gyfer nodi disgyblion y mae angen cymorth arnynt. Caiff hyn ei gydlynu'n dda ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, ac mae gwasanaethau'n cynnig cyfleoedd defnyddiol i fyfyrio.

Mae trefniadau pontio effeithiol gydag ysgolion cynradd partner yn sicrhau bod disgyblion ym Mlwyddyn 7 yn ymgynefino'n dda. Rhoddir cyngor gwerthfawr a chymorth buddiol i rieni a disgyblion, wrth ddewis opsiynau neu ystyried gyrfaoedd yn y dyfodol, er enghraifft.

Mae staff cymorth a disgyblion chweched dosbarth sy'n meddu ar gymwysterau da ac wedi cael hyfforddiant da yn rhoi cymorth targedig buddiol i unigolion a grwpiau bach o ddisgyblion. Mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol ym medrau darllen a rhifedd y disgyblion hyn, eu hyder a'u gallu i fanteisio ar y cwricwlwm.

Mae mwyafrif y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cael gwaith sy'n gweddu'n dda i'w galluoedd unigol na'r cymorth penodol sydd ei angen arnynt i'w helpu i wneud cynnydd mewn gwersi prif ffrwd. Mae'r broses adolygu flynyddol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn bodloni gofynion statudol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau addysg unigol bob amser yn nodi targedau dysgu priodol y mae staff a disgyblion ar draws yr ysgol yn eu gwybod, yn eu defnyddio a'u hadolygu'n effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod dda o strategaethau i hysbysu rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda am addysg eu plentyn a'u hannog i gymryd rhan yn llawn ynddi.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol a gofalgar yr ysgol yn nodi anghenion unigol disgyblion ac yn mynd i'r afael â nhw'n dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth o amrywiaeth a pharch am bobl o wahanol gefndiroedd ac yn herio stereoteipiau yn llwyddiannus. Mae trefniadau priodol ar waith i sicrhau nad yw disgyblion ag anableddau corfforol yn cael eu rhoi dan anfantais mewn unrhyw ffordd.

Mae ansawdd yr adeiladau'n uchel, ac fe gânt eu cynnal a'u cadw'n dda iawn. Mae arddangosiadau deniadol ar hyd y coridorau ac yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth yn gwella'r amgylchedd dysgu. Mae ystod eang iawn o adnoddau dysgu ar gael i ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn arbennig o dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Er mai digonol yw'r safonau, mae'r arweinyddiaeth yn dda gan ei bod wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwelliannau mewn safonau a phresenoldeb. Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol glir y mae staff a disgyblion yn ei deall yn dda. Caiff gefnogaeth dda gan ei uwch dîm rheoli, a gyda'i gilydd, maent yn rhoi cyfeiriad effeithiol i waith yr ysgol. Mae'r arweinwyr wedi cyflwyno cyfres o fesurau llwyddiannus i wella dyheadau disgyblion a sicrhau mwy o gysondeb yng ngwaith yr ysgol.

Mae uwch reolwyr yn wybodus ynglŷn â gwaith adrannau a grwpiau blwyddyn, ac maent yn darparu lefelau da o gymorth. Mae systemau addas ar gyfer rheoli perfformiad staff ac mae'r ysgol yn herio tanberfformiad yn dda. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr canol yn gwbl atebol am eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf o staff ar bob lefel yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn eu cyflawni'n dda.

Mae llywodraethwyr yn wybodus am berfformiad yr ysgol ac yn cynnig lefel addas o her a beirniadaeth adeiladol i'r ysgol. Mae'r corff llywodraethol wedi'i drefnu'n dda ac yn chwarae rôl ddefnyddiol mewn datblygu strategaethau gwella a monitro cynnydd.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel gwella lefelau llythrennedd, byw yn iach a'r dimensiwn Cymreig.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol raglen gynlluniedig ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae hyn yn cynnwys systemau priodol i gasglu safbwyntiau disgyblion a rhieni. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn cynnwys dadansoddiad manwl a chywir iawn o ddata. Mae'n arfarnol yn bennaf ac yn darparu tystiolaeth addas i gyflwyno darlun dilys o gryfderau a gwendidau'r ysgol yn y rhan fwyaf o feysydd.

Mae llawer o reolwyr canol yn defnyddio data perfformiad yn effeithiol i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn defnyddio data'n ddigon da i gymharu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae arweinwyr a rheolwyr canol yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu o arsylwadau gwersi, adolygiadau adrannol a chraffu ar lyfrau. Fodd bynnag, nid yw'r arfarniad o adolygiadau ac arsylwadau gwersi yn arwain yn systematig at wella cynllunio ac addysgu. Mae'r cynllun gwella ysgolion yn cynnwys targedau heriol i wella deilliannau disgyblion, ond nid yw'n canolbwyntio'n ddigon cryf ar wella'r addysgu. Mae cyswllt addas rhwng y cynllun gwella ysgol a'r cynlluniau adrannol.

Mae camau o hunanarfarnu wedi arwain at welliannau yn y cwricwlwm, deilliannau arholiadau ac ansawdd y cymorth i lawer o ddisgyblion. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd digonol yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, mae diffygion o hyd mewn presenoldeb ac agweddau ar wella asesiad disgyblion o'u dysgu eu hunain.

Mae gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus yn cefnogi staff yn dda. Mae'r ysgol yn cynllunio'r gweithgareddau hyn yn ofalus. Maent wedi'u cysylltu'n glir â thargedau rheoli perfformiad yn ogystal â blaenoriaethau gwella adrannol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth trwy secondiadau i'r tîm arweinyddiaeth estynedig. Mae pob un o'r athrawon yn cymryd rhan mewn gweithgorau yn yr ysgol sy'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas yn sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion eraill yn eu teulu i wella addysgu a dysgu. Megis dechrau datblygu y mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau hyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau effeithiol gydag ysgolion, sefydliadau, asiantaethau a chyflogwyr eraill. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at les a phrofiadau dysgu disgyblion.

Mae gan yr ysgol rôl gynhyrchiol yng Nghonsortiwm Cwm Cynon, sef partneriaeth ffurfiol yn y sector ôl-16 rhwng ysgolion lleol. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd priodol ar waith ar gyfer y ddarpariaeth gydweithredol. Mae'r bartneriaeth hon wedi arwain at fwy o ddewis ac wedi gwella deilliannau ar gyfer disgyblion chweched dosbarth yn sylweddol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda rhieni. Caiff rhieni gyfleoedd defnyddiol i drafod problemau, presenoldeb a chynnydd eu plant.

Mae gan yr ysgol rôl flaenllaw ym 'Mhartneriaeth Aberpennar', sy'n dod â nifer o bartneriaid allweddol yn y gymuned at ei gilydd. Mae'r bartneriaeth wedi sefydlu nifer o brosiectau a mentrau effeithiol, fel canolfan arloesedd roboteg yr ysgol. Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion ac aelodau o'r gymuned leol ddysgu trwy chwarae a datblygu medrau meddwl. Mae'r bartneriaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â 'Strategaeth Bryncynon', sef elusen gymunedol leol, i gyflwyno rhaglen 'Key Start', sy'n cefnogi disgyblion mwy bregus yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r disgyblion hyn yn treulio amser ar leoliadau gwaith gwerthfawr i ennill ystod eang o gymwysterau galwedigaethol. Mae hyn yn eu

galluogi i fynd ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach a dysgu yn y gwaith. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cwblhau'r rhaglen hon wedi cael canlyniad cadarnhaol ac maent wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i fodloni gofynion y cwricwlwm a chefnogi'r dysgu. Mae digon o staff â chymwysterau addas sydd ag arbenigedd priodol. Mae'r ysgol yn rheoli adnoddau'n dda iawn ac mae lefelau da iawn o effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd, er enghraifft trwy ddatblygiad 'Caffi MACS' a rhaglen effeithiol 'Key Start'. Mae trefniadau partneriaeth effeithiol yn galluogi'r chweched dosbarth i gynnig gwerth da am arian.

Mae'r ysgol yn monitro costau ei chynlluniau gwella yn ofalus ac mae'n mynd ati'n llwyddiannus i reoli cyllideb lai yn sgil gostyngiad yn y niferoedd ar y gofrestr. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn defnyddio ystod eang o gyllid i gefnogi'r ysgol yn effeithiol.

Gan y bernir bod safonau yn yr ysgol yn ddigonol, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

## Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf.  Yn 2011, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o feincnodau ysgolion ac ychydig uwchlaw'r disgwyliadau wedi'u modelu.  Rhoddodd hyn yr ysgol yn y chwarter uchaf yn 2011, o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.  Yn ystod y tair blynedd flaenorol, roedd yn y chwarter gwaelod neu'r hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella yn ystod y tair blynedd diwethaf.  Yn 2011, fe wnaeth perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth olygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim.  Ar lefel 6 ac yn uwch, roedd perfformiad mewn Saesneg uwchlaw cyfartaledd y teulu ac roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth yn debyg, tra oedd lefelau perfformiad mewn mathemateg islaw'r cyfartaledd.  Llwyddodd cyfran fechan o ddisgyblion i gyflawni lefel 7 neu'n uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.  At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o'r cyfnod allweddol blaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ar y cyfan.  Mae wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.  Yn 2011, roedd uwchlaw cyfartaleddau teuluol o drwch blewyn, ychydig uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu ac yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.  Mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf, ond mae'n unol â chyfartaleddau teuluol yn gyson, ac yn 2011, roedd yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Yn 2011, roedd perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ac yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg.  Mae cyrhaeddiad o ran trothwy lefel 2 wedi dangos gwelliant parhaus er 2008 ac yn golygu bod yr ysgol yn gyson yn y chwarter meincnod uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.  Mae perfformiad yn Saesneg lefel 2 wedi bod yn gostwng er 2008, ond mae'n parhau i fod uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ac yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter meincnod uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.  Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi gwella'n fawr yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae uwchlaw cyfartaledd y teulu, ac yn 2011, roedd yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter meincnod uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 1 wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf.  Yn 2011, roedd yn cyd-fynd yn fras â chyfartaleddau teuluol ac yn golygu bod yr ysgol yn hanner uchaf y chwarter meincnod o gymharu ag ysgolion tebyg.  O gymharu â'u perfformiad mewn cyfnodau allweddol blaenorol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn bron ym mhob dangosydd.

Roedd canran y dysgwyr yn gadael yr ysgol heb gymhwyster yn 2011 yn hynod isel. Mae wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ac mae'n well na chyfartaleddau'r teulu a Chymru erbyn hyn. Yn y chweched dosbarth, cyflawnodd canran uchel iawn o ddisgyblion y chweched dosbarth drothwy lefel 3. Roedd cyrhaeddiad disgyblion ar y sgôr pwyntiau ehangach ychydig islaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol yn 2011.

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae bechgyn yn perfformio'n waeth na merched yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Yng nghyfnod allweddol 3, y gwahaniaeth rhwng perfformiadau bechgyn a merched yn y DPC yw'r trydydd mwyaf yn y teulu ac mae'n llawer ehangach na chyfartaledd y teulu. Mae hyn yn bennaf oherwydd perfformiad mewn Saesneg, ond mae'r bylchau hefyd yn fawr mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn perfformio cryn dipyn yn well na bechgyn yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, ac yn y DPC. Yn 2011, roedd y gwahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched gryn dipyn yn ehangach na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 3, nid yw disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal yn y DPC o gymharu â chyfartaledd y teulu, yr awdurdod lleol neu Gymru. Yng nghyfnod allweddol 4, nid yw disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn perfformio yn unol â'r lefelau a gyflawnir gan y disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill, neu'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ar drothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg. Mewn perthynas â chyrhaeddiad ar drothwy lefel 2, mae'r bwlch rhyngddyn nhw a disgyblion eraill wedi lleihau. Mae disgyblion ag anghenion addysgol yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ac wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 4, mae canran y garfan a gofrestrir ar gyfer y cwrs llawn Cymraeg a'r gyfran sy'n ennill cymhwyster lefel 2 yn y cwrs byr Cymraeg yn isel.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i'r holiaduron i ddysgwyr

Cafodd Estyn ymatebion gan 253 o ddisgyblion, a ddewiswyd ar hap ar draws pob grŵp blwyddyn.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod rhywun y gallant siarad ag ef os ydynt yn poeni. Mae llawer o ddisgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, ac mae mwyafrif yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb a gwneud pethau drostynt eu hunain. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod athrawon yn eu helpu i wneud cynnydd a pharatoi ar gyfer eu dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cadarnhau bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Mae llawer ohonynt yn teimlo bod staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Dywed llawer o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach, a dywed y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn cael digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu bywyd.

Mae'r ymatebion hyn yn cymharu'n ffafriol iawn â safbwyntiau disgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill.

### Ymateb i'r holiaduron i rieni

Cafodd Estyn 222 o holiaduron wedi'u llenwi gan rieni neu ofalwyr. O'r rhai a ymatebodd, ymatebodd y rhan fwyaf o rieni yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn i'r rhan fwyaf o gwestiynau.

Mae bron pob un o'r rhieni'n falch â'r ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud yn dda. Mae bron pob un o'r rhieni'n teimlo bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda.

Mae bron pob un o'r rhieni'n credu bod disgwyl i'w plant weithio'n galed a bod yr addysgu'n dda. Dywed bron pob un ohonynt fod ystod dda o weithgareddau, ymweliadau a chyfleoedd ar gyfer ymarfer corff. Mae llawer ohonynt yn credu bod gwaith cartref yn helpu eu plant i wneud cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod yr ysgol yn cael ei harwain yn dda. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion ac yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Mae’r rhan fwyaf o rieni’n credu bod yr ysgol yn helpu eu plant i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb.  Mae’r rhan fwyaf o rieni’n credu bod eu plant yn cael y lefel gywir o gymorth ychwanegol ar gyfer eu dysgu, ac mae llawer ohonynt yn credu bod eu plant yn cael eu paratoi’n dda i symud ymlaen i’r cyfnod nesaf yn eu haddysg neu gyflogaeth.  Mae’r rhan fwyaf o rieni’n credu bod staff yn dangos parch at y disgyblion a’u bod yn cael eu hysbysu’n dda am gynnydd eu plant.

Mae’r rhan fwyaf o’r ymatebion hyn yn cymharu’n ffafriol iawn â safbwyntiau rhieni mewn ysgolion uwchradd eraill.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Ceri Jones AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Jackie Gapper AEM | Arolygydd Tîm |
| Meinir Rees AEM | Arolygydd Tîm |
| Peter Harris | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard AEM | Arolygydd Cysgodol |
| Edward Tipper | Arolygydd Lleyg |
| Marc Belli | Arolygydd Cymheiriaid |
| Martin Franklin | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |